
CYFRES B4

# amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4



Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th




DARLLENWCH
Luc 23: 32-56



ADNODAU
ALLWEDDOL
Ioan 15: 13 a 14

## Astudiaeth 1 Yr Arglwydd Iesu yn Marw



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Salm 22 Eseia 53 Ioan 19: 16-42

Roedd Iesu tua 33 oed pan fuodd farw. Roedd hyn tua thair blynedd ar ôl iddo ddewis ei 12 disgybl a dechrau ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Roedd yn mynd o le i le i ddysgu, gwella pobl sâl a gwneud gwyrthiau eraill. Yn ystod yr amser hwnnw, gwnaeth lawer o ffrindiau ac roedd ganddo lawer o ddilynwyr ond roedd ganddo lawer o elynion hefyd a oedd yn genfigennus ohono ac yn ceisio dylanwadu ar y bobl.

**C Sonnir am rai o'i elynion yn adnod 35.**
**Pwy oedden nhw? Beth ddywedon nhw? Sut wnaethon nhw ei ddweud?**

4

Roedd y rheolwyr (arweinwyr yr Iddewon) yn poeni fod Iesu'n tanseilio eu hawdurdod a'u dylanwad ar y bobl. Roedden nhw'n mwynhau bod mewn grym a doedden nhw ddim eisiau colli eu hawdurdod. Doedden nhw ddim yn poeni pwy oedd Iesu na beth fyddai'n digwydd iddo – dim ond iddo adael llonydd iddyn nhw. Mae llawer ohonon ni yn teimlo felly heddiw.

**C Yn adnod 36, daeth rhagor o elynion Iesu ato ar y groes.**
**Pwy oedden nhw? Beth ddywedon nhw? Sut wnaethon nhw ei ddweud?**

4

Rhufeiniaid oedd y milwyr, nid Iddewon. Doedden nhw ddim yn grefyddol fel arweinwyr yr Iddewon. Yn wir, roedden nhw'n enwog am fod yn greulon ac yn gas. Mae'n siwr eu bod nhw'n meddwl y bydden nhw'n plesio'r arweinwyr Iddewig wrth drin Iesu fel hyn. Mae llawer o bobl yn dal i wneud pethau i blesio pobl eraill, hyd yn oed os ydyn nhw'n gwybod bod hynny'n anghywir.

Yn syth ar ôl i Iesu farw, roedd gan un o'r milwyr (canwriad a oedd yn gofalu am gant o ddynion) rywbeth gwahanol iawn i'w ddweud.

**C** **Beth ddywedodd e a sut wnaeth e'i ddweud?**

2

**C** **Yn adnod 39, down ar draws un arall o elynion Iesu. Pwy oedd e a beth wnaeth e i Iesu?**

2

Fodd bynnag, roedd gan y troseddwr arall agwedd hollol wahanol. Roedd e'n gwybod ei fod yn haeddu cael ei gosbi oherwydd iddo fyw bywyd drwg.

**C** **Beth ddywedodd e am Iesu?**

1

**C** **Beth ddywedodd e wrth Iesu?**

1

**C** **Sut wnaeth Iesu ymateb i gais y lleidr oedd ar fin marw?**

2


Roedd y troseddwr hwn yn cyfaddef ei fod yn bechadur a'i fod yn haeddu marw. Roedd yn cydnabod bod Iesu'n ddibechod ac y byddai'n teyrnasu fel Brenin yn y bywyd nesaf. Gofynnodd i'r Arglwydd Iesu ei gofio ac addawodd Iesu y byddent gyda'i gilydd ym mharadwys.

**Ydych chi eisiau bod gyda'r Arglwydd Iesu ym mharadwys (y Nefoedd) un diwrnod? Os felly, mae angen i chi wneud fel y lleidr.**

1. Cyfaddef eich bod yn bechadur ac yn haeddu cosb gan Dduw.
2. Credu bod yr Arglwydd Iesu'n ddibechod a'i fod wedi cael ei gosbi yn eich lle.

Roedd llawer o ffrindiau a dilynwyr Iesu'n edrych ar bopeth oedd yn digwydd. Roedd nifer o wragedd (adnod 49) wedi'i ddilyn o Galilea ac wedi'i helpu.

**C** **Gwelwn enwau rhai o'r rhain yn Marc15: 40. Mae enwau dwy ohonynt yn ffitio i 1. a 2. yn y Croesair. 3. yw enw'r dyn a ofynnodd i Peilat am gorff Iesu. a 4. yw enw'r dyn a aeth gyda 3, sonnir amdano ef yn Ioan 19: 39.**



4

Darllenwch yr Adnodau Allweddol yn ofalus a gofyn y cwestiwn hwn i chi'ch hunan:
**"Ai ffrind ynteu elyn i'r Arglwydd Iesu ydw i?"**

**cyfanswm**